**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DC/JMHSC/0158/26

Colin Dennis - Cadeirydd
Emma Wood - Prif Weithredwr
Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

18 Mawrth 2026

Annwyl Colin ac Emma,

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn y Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus gydag Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) ar 5 Mawrth 2026, i nodi fy myfyrdodau ar ein trafodaeth a'r themâu allweddol a archwiliwyd yn ystod y cyfarfod - y gellir gweld recordiad ohono yn Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru / WAST University NHS Trust PAM. Diolch i chi a'ch tîm am ddod, ac am y pecyn tystiolaeth a ddarparwyd cyn y cyfarfod; mae hwn yn rhan bwysig o gofnod y cyfarfod.

Fe wnaethoch chi roi trosolwg agoriadol defnyddiol ar ran y Bwrdd, lle gwnaethoch gydnabod y pwysau parhaus a sylweddol ar draws y system iechyd a gofal ehangach - a rôl yr Ymddiriedolaeth yn y cyd-destun hwnnw fel gwasanaeth cenedlaethol sy'n gweithredu ar raddfa. Er gwaethaf y pwysau hyn, mae'r sefydliad yn parhau i fod yn sefydlog, yn ddisgybledig yn ariannol ac yn hyderus yn ei drefniadau llywodraethiant. Fe wnaethoch nodi bod ymdeimlad o gynnydd, er eich bod yn realistig ynghylch yr heriau y mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i'w hwynebu, gan gydnabod bod llawer o ganlyniadau nid yn unig o fewn rheolaeth yr Ymddiriedolaeth ond yn cael eu siapio gan berfformiad y system. Fe wnaethoch esbonio ehangder gweithgarwch yr Ymddiriedolaeth bob blwyddyn, gan gynnwys ymateb ambiwlans brys, GIG 111 Cymru, mynediad digidol a gwasanaethau cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys.

Fe wnaethom ganolbwyntio i ddechrau ar ddarparu gwasanaethau. Fe wnaethoch chi ddisgrifio blwyddyn o newidiadau sylweddol, gan gynnwys cyflwyno'r fframwaith perfformiad ambiwlans newydd a'r model clinigol sydd wedi datblygu. Fel Bwrdd, rydych chi'n cefnogi symud oddi wrth fesurau sy'n seiliedig ar amser yn unig, gan roi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ffocws cliriach ar ganlyniadau clinigol, profiad cleifion a lleihau niwed. Fe wnaethoch dynnu sylw at feysydd lle mae cynnydd yn dechrau cael ei weld, gan gynnwys gwell perfformiad o ran trosglwyddo cleifion o ambiwlansys yn ystod y gaeaf, cyflwyno'r dull rhyddhau i ymateb 45 munud, ac ehangu asesiadau clinigol o bell, gyda chyfran sylweddol o alwadau 999 bellach yn cael eu datrys heb orfod cludo cleifion i'r ysbyty. Ar yr un pryd, roeddech chi'n agored bod cynnydd yn parhau i fod yn fregus ac yn destun amrywiadau. Fe wnaethoch chi gydnabod bod gormod o gleifion yn parhau i brofi cyfnodau aros hir, yn enwedig y rhai mewn categorïau aciwtedd is, a bod perfformiad y gwasanaethau cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys a gwasanaethau GIG 111 yn parhau i fod dan bwysau.

Fe wnaethom archwilio'n fanwl sut mae'r model clinigol newydd a'r fframwaith perfformiad ambiwlans yn gweithredu gyda'i gilydd. Fe wnaethoch chi nodi nad yw'r gweithgarwch yn cael ei ddosbarthu eto ar draws y categorïau disgwyliedig a bod cyfle pellach o hyd i wella llywio clinigol cynnar, lleihau uwchgyfeirio diofyn i ymatebion aciwtedd uwch a sicrhau bod y model yn gweithio mor effeithiol â phosibl. Fe wnes i nodi fy mhryder, er bod y system, yn gyfiawn felly, yn canolbwyntio ar y galwadau mwyaf brys o ran amser, bod canlyniadau a phrofiad y nifer fawr o gleifion yn y categorïau oren a melyn yn parhau i fod yn fater difrifol, yn enwedig lle gall arosiadau gartref ymestyn am oriau maith, a lle mae Crwneriaid EF wedi tynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi hir. Roeddech chi'n glir bod angen gwerthuso pellach, ailfodelu a chyfnod o sefydlogrwydd gweithredol cyn y gellir dod i gasgliadau pendant am effaith lawn y newidiadau.

Fe wnaethom drafod goblygiadau diogelwch gweithredu amryw o newidiadau mawr ar gyflymder. Fe wnaethoch ddisgrifio'r trefniadau llywodraethiant a goruchwylio clinigol a roddwyd ar waith i gefnogi trawsnewid, gan gynnwys prosesau gwella ansawdd, adrodd digwyddiadau fu bron â digwydd, monitro dyddiol a chynnwys timau diogelwch cleifion yn y broses. Rwy'n gwerthfawrogi bod y Bwrdd yn derbyn sicrwydd yn ystod y cyfnod hwn o newid a'r pwyslais rydych chi wedi'i roi ar ddysgu ac addasu yn gyflym pan ddaw materion i'r amlwg.

Roedd rhan sylweddol o'r cyfarfod yn canolbwyntio ar GIG 111. Fe wnaethoch chi gydnabod yn agored nad yw perfformiad teleffoni, yn enwedig y nifer sy'n rhoi'r gorau i alwadau, wedi bodloni'r disgwyliadau yn gyson a bod hyn yn cael effaith ehangach ar ofal brys a gofal mewn argyfwng. Fe wnaethoch chi esbonio anwadalrwydd y galw, yr her o ran rheoli brigiadau, a'r cyfyngiadau ariannol sy'n cyfyngu ar y graddau y gellir cynyddu lefelau staffio. Roeddech chi'n glir, er bod angen gwelliant, bod rhaid i ddisgwyliadau hefyd fod yn realistig o ystyried natur y gwasanaeth. Fe wnaethoch chi nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella cynhyrchiant a gwydnwch, gan gynnwys adolygu rhestrau dyletswyddau, ymarferoldeb galw yn ôl, a datblygu wyneb blaen digidol cryfach trwy wirwyr symptomau ac offer wedi'u galluogi gan AI. Fe wnaethoch chi ddisgrifio'r datblygiadau hyn fel rhywbeth hanfodol i gyflawni newid cynaliadwy yn hytrach na gwelliant tymor byr yn unig.

Roedd yr ail eitem ar yr agenda yn canolbwyntio ar sut mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y system ehangach. Fe wnaethoch chi ddisgrifio rôl esblygol yr Ymddiriedolaeth fel partner i system sy'n cael ei arwain yn glinigol yn hytrach na fel ymatebydd i bwysau yn unig. Fe wnaethoch dynnu sylw at

ymgysylltiad cryfach mewn fforymau arweinyddiaeth a chyflawni cenedlaethol, gwell perthynas â chomisiynwyr, a phartneriaeth leol fwy strwythuredig sy'n gweithio o amgylch pwyntiau mynediad sengl a dewisiadau amgen i drawsgludo. Ar yr un pryd, roeddech chi'n glir mai amrywiaeth mewn llwybrau cymunedol, meini prawf derbyn a pharodrwydd i dderbyn risg ledled Cymru yw un o'r rhwystrau mwyaf arwyddocaol i gynnydd pellach o hyd. Fe wnaethom drafod sut mae arweinyddiaeth y system yn edrych, ac fe wnaethoch chi ddisgrifio sut mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio ei safbwynt cenedlaethol, ei data a'i pherthnasoedd i dynnu sylw at amrywiad diangen a rhannu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Fe wnes i ystyried y rhwystredigaeth nad yw cynlluniau peilot llwyddiannus bob amser yn lledaenu ar gyflymder ac archwiliais gyda chi sut y gall yr Ymddiriedolaeth barhau i ddylanwadu, hyd yn oed os yw ysgogwyr ffurfiol yn gyfyngedig.

Fe wnaethom drafod trefniadau comisiynu a chynllunio'r gweithlu yn y cyd-destun hwn. Roeddech chi'n agored am yr heriau o weithredu o fewn strwythurau comisiynu presennol ac anhawster datblygu mentrau llwyddiannus pan fo cyllid yn parhau i fod yn dameidiog. Mewn perthynas â'r gweithlu, gwnaethom archwilio'r bwlch rhwng niferoedd graddedigion parafeddygol a'r rolau parhaol sydd ar gael, effaith newidiadau mewn cymysgedd sgiliau ar fforddiadwyedd, a'r risgiau o gomisiynu hyfforddiant nad yw'n cael ei gadw'n llawn o fewn y system. Rhaid cyflymu'r gwaith a ddisgrifiwyd gennych gyda phartneriaid addysg a gweithlu i sicrhau bod cyflenwad y gweithlu yn y dyfodol yn cyd-fynd yn well â modelau gofal ac anghenion system sy'n dod i'r amlwg.


Roedd y drydedd eitem ar yr agenda yn canolbwyntio ar gryfhau'r sefydliad. Fe wnaethoch amlinellu sicrwydd y Bwrdd o ran llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth ariannol, gan gynnwys cyflwyno datganiadau parodrwydd i dderbyn risg, fframweithiau sicrwydd cryfach a chyflawni sefyllfa ariannol wedi'i mantoli. Fe wnaethoch chi ddisgrifio cynnydd o ran datblygu arweinyddiaeth, ymgysylltu â staff a diwylliant sefydliadol, gan gydnabod hefyd y pwysau parhaus ar lesiant staff a'r heriau tymor hwy o ran cynaliadwyedd y gweithlu. Croesawais y pwyslais a roddwyd gennych ar driongli penderfyniadau ariannol trwy asesiad effaith ansawdd a chraffu clinigol i sicrhau bod diogelwch a gwydnwch gwasanaeth yn parhau i fod yn hollbwysig.

Yn olaf, fe wnaethom drafod sut mae'r Bwrdd yn edrych i'r dyfodol. Fe wnaethoch chi ddisgrifio pwysigrwydd galluogi seilwaith, yn enwedig gallu digidol, fflyd ac ystadau, fel rhywbeth sy'n sylfaenol i ddarparu modelau gofal newydd. Fe wnaethoch groesawu'r buddsoddiad diweddar mewn fflyd ac amlinellu uchelgeisiau ar gyfer drws ffrynt digidol cydlynol, gwell data ac ystadau wedi'u moderneiddio wedi'u halinio â darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol. Trafodwyd sut y bydd angen i gapasiti a gallu esblygu, gyda mwy o bwyslais ar sgiliau clinigol uwch mewn canolfannau cyswllt a lleoliadau cymunedol, a sut mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio sicrhau mwy o ffocws a bod yn fwy realistig ynghylch graddfa a chyflymder y newid y mae'n ei wneud. Roeddech chi'n glir bod yn rhaid i'r cyfnod sydd i ddod ymwneud ag ymgorffori a gwerthuso'r hyn sydd eisoes wedi'i gyflwyno, yn hytrach na haenu ailgynllunio ar raddfa fawr ar ben rhaglen sydd eisoes yn gymhleth.

Wrth grynhoi'r cyfarfod, dywedais fod gan yr Ymddiriedolaeth raglen drawsnewid heriol ar y gweill a bod angen amlwg i ganiatáu lle i newidiadau setlo a chael eu gwerthuso'n briodol. Fe wnes i gydnabod proffesiynoldeb, uchelgais a difrifoldeb y Bwrdd a'r tîm gweithredol wrth iddynt fynd i'r afael â'r gwaith hwn. Ar yr un pryd, rwy'n glir bod yn rhaid i'r cam nesaf ddangos effaith, dysg a chywiriadau lle bo angen, yn enwedig mewn perthynas â phrofiad cleifion ac amseroedd aros. Pwysleisiais y cyfle arweinyddiaeth system unigryw sydd gan yr Ymddiriedolaeth fel sefydliad cenedlaethol sydd â gweledig ar draws Cymru, a'r cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa honno i barhau i ddylanwadu ar gysondeb, integreiddio a gwelliant ar draws y system gofal brys a gofal mewn argyfwng ehangach.

Hoffwn ddiolch i chi am yr hyn a oedd yn gyfarfod adeiladol, tryloyw a heriol ac am eich ymrwymiad parhaus i wella canlyniadau i bobl ledled Cymru.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care